Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Ymateb i adolygiad thematig Estyn o arweinyddiaeth a gwella ysgolion cynradd

ISBN digidol 978 1 4734 7188 7
© Hawlfraint y Goron Medi 2016
WG28054

| |
|---|
| **Teitl yr adroddiad: Arweinyddiaeth a gwella ysgolion cynradd** |
| **Manylion yr adroddiad:**<br>Comisiynwyd y cyngor gan Is-adran Safonau a Datblygiad Proffesiynol Ymarferwyr yr Adran Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus. Diben yr adroddiad yw enghreifftio sut mae arweinyddiaeth a meithrin y gallu i arwain mewn ysgolion cynradd yn hanfodol i wella perfformiad ysgolion.<br><br>Mae'r adroddiad hwn yn adeiladu ar ganfyddiadau adroddiad cynharach sef *Arfer orau o ran datblygu arweinyddiaeth mewn ysgolion* a gyhoeddwyd gan Estyn yn 2015. |
| **Crynodeb o'r prif ganfyddiadau:**<br>Mae lle i bob ysgol wella ac mae arweinwyr effeithiol yn addasu eu harddulliau arweinyddiaeth yn unol â sefyllfa'r ysgol ar ei thaith ar gyfer gwella.<br><br>Mae rhai tasgau cyffredin y mae angen i bob ysgol fynd i'r afael â nhw beth bynnag y bo'r gwelliannau y mae angen eu gwneud sef:<br><br>• Diffinio **gweledigaeth a chyfeiriad strategol** yr ysgol yn glir; mae'r weledigaeth hon yn esblygu wrth i'r ysgol wella<br>• Sefydlu a chynnal diwylliant lle **gwella safonau a lles** i bob disgybl yw'r brif flaenoriaeth<br>• Sicrhau mai **gwella addysgu** yw'r broses allweddol sy'n cyfrannu at wella safonau<br>• Cyflwyno **cwricwlwm** sy'n **bodloni anghenion pob disgybl** yn llawn<br>• Cynnal ffocws cyson ar wella medrau **llythrennedd a rhifedd** disgyblion, gan gynnwys uwch fedrau meddwl ac ymresymu<br>• Gwneud yn siŵr fod **datblygiad proffesiynol parhaus** staff yn gwella ansawdd y ddarpariaeth a deilliannau i ddisgyblion<br>• Gwneud yr holl staff, yn enwedig y rhai sydd mewn rolau rheoli, yn **atebol** am eu meysydd gwaith<br>• Gwneud yn siŵr fod deilliannau **hunanarfarnu** yn deillio o **dystiolaeth uniongyrchol** ac **wedi'u cysylltu agos â blaenoriaethau gwella'r ysgol**<br>• Rhoi dadansoddiadau clir, dealladwy a gonest i **lywodraethwyr** o ba mor dda y mae'r ysgol yn perfformio, a'u hannog i herio tanberfformiad<br><br>Mae'r adroddiad yn manylu ar fodel ar gyfer taith wella ac yn canolbwyntio ar gyfres o astudiaethau achos manwl o ysgolion ar wahanol gamau o'u datblygiad. Mae'n cael ei argymell i ymarferwyr, ysgolion, awdurdodau lleol a chonsortia fel adnodd gwerthfawr a fydd yn sail i ddatblygu arweinyddiaeth effeithiol. Nid oes argymhellion yn yr adroddiad. |
| **Manylion cyhoeddi:**<br>Caiff yr adroddiad ei gyhoeddi ar wefan Estyn www.estyn.llyw.cymru |